YMCHWIL

Gwerthusiad o Gronfa Adferiad Diwylliannol Cymru: 2020 i 2021 (crynodeb)

Mae'r gwerthusiad yn rhoi barn ar i ba raddau y mae'r cymorth grant wedi cynorthwyo'r sectorau diwylliannol a chreadigol yng Nghymru i oroesi'r effeithiau negyddol a ddeilliodd o COVID-19.

Cyhoeddwyd gyntaf: 23 Mehefin 2022

Diweddarwyd ddiwethaf: 23 Mehefin 2022

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i **https://llyw.cymru/gwerthusiad-o-gronfa-adferiad-diwylliannol-cymru-2020-i-2021-crynodeb-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Cynnwys

Cyflwyniad a methodoleg

Effaith COVID-19 ar y sectorau creadigol a diwylliannol yng Nghymru

Dyluniad y gronfa a dulliau cyflawni

Proffil yr ymgeiswyr a derbynwyr y grantiau

Ymateb derbynwyr grant i'r pandemig

Effaith y Gronfa Adferiad Diwylliannol ar dderbynwyr y grantiau

Effeithiau cymdeithasol a diwylliannol ehangach yr arian

Y Contract Diwylliannol ac Adduned y Gweithwyr Llawrydd

Hyder a rhagolygon

Anghenion cymorth yn y dyfodol

Gwersi allweddol

Ystyriaethau polisi

Manylion cyswllt

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i **https://llyw.cymru/gwerthusiad-o-gronfa-adferiad-diwylliannol-cymru-2020-i-2021-crynodeb-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Cyflwyniad a methodoleg

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi manylion canfyddiadau'r gwerthusiad o broses ac effaith Cronfa Adferiad Diwylliannol Cymru 2020 i 2021. Mae'r gwerthusiad yn rhoi barn ar i ba raddau y mae'r cymorth grant wedi cynorthwyo'r sectorau diwylliannol a chreadigol yng Nghymru i oroesi'r effeithiau negyddol a ddeilliodd o COVID-19. Cynhaliwyd y gwerthusiad rhwng mis Ebrill 2021 a mis Ebrill 2022.

Defnyddiodd y tîm gwerthuso ddulliau cymysg gan gynnwys cyfweliadau lled-strwythuredig â rhanddeiliaid allweddol; adolygiad o ddogfennau polisi a chanllawiau allweddol sy'n sail i gyflawni'r gronfa a thystiolaeth ehangach a gyhoeddwyd ar effaith y pandemig ar y sectorau creadigol a diwylliannol yng Nghymru; dadansoddiad o ddata gweinyddol a monitro; arolwg ar-lein o ymgeiswyr Cylch 1 y Gronfa Adferiad Diwylliannol; arolwg ar-lein o dderbynwyr Cylch 1 a 2 y Gronfa Gweithwyr Llawrydd; a chyfweliadau manwl â derbynwyr y Gronfa Adferiad Diwylliannol a'r Gronfa Gweithwyr Llawrydd.

Effaith COVID-19 ar y sectorau creadigol a diwylliannol yng Nghymru

Un o nodweddion llechwraidd niferus pandemig COVID-19 fu'r effaith anghymesur ar grwpiau a sectorau penodol o fewn yr economi. Mae gweithgareddau amrywiol, o berfformiadau byw a chynyrchiadau theatr i arddangosfeydd ac orielau, wedi gweld eu refeniw'n gostwng yn ddramatig wrth i leoliadau gau eu drysau ac wrth i bobl gael eu gwahardd rhag ymgynnull er mwyn gadw pellter cymdeithasol.

Mae'r sylfaen dystiolaeth gynyddol ynghylch effaith y pandemig yn amlygu'r effaith negyddol anghymesur y mae wedi'i chael ar y diwydiannau diwylliannol a chreadigol. Mae hyn wedi effeithio'n uniongyrchol ar sector sydd wedi'i

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i **https://llyw.cymru/gwerthusiad-o-gronfa-adferiad-diwylliannol-cymru-2020-i-2021-crynodeb-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

nodweddu gan gyfrannau uwch o ficrofusnesau a gweithwyr proffesiynol hunangyflogedig, ond hefyd cadwyn gyflenwi lawer ehangach. Mae'r effeithiau negyddol hyn wedi parhau y tu hwnt i godi cyfyngiadau iechyd y cyhoedd, gan dynnu sylw at y ffaith nad yw pob sefydliad wedi symud yn llawn i gyfnod o adfer ac ailadeiladu, ac mae llawer yn dal i wynebu bygythiadau uniongyrchol i'w goroesiad a'u hyfywedd hirdymor.

Dyluniad y gronfa a dulliau cyflawni

Lansiwyd y Gronfa Adferiad Diwylliannol ym mis Gorffennaf 2020, tua phum mis ar ôl i'r achos cyntaf yng Nghymru gael ei ganfod. Cyflawnwyd y Gronfa gan Lywodraeth Cymru, Cyngor Celfyddydau Cymru ac awdurdodau lleol. Llywodraeth Cymru a gyflwynodd yr arian ar gyfer y sectorau creadigol, diwylliannol, digwyddiadau a threftadaeth, Cyngor Celfyddydau Cymru a gyflwynodd yr arian ar gyfer sector y celfyddydau, ac awdurdodau lleol a gyflawnodd y Gronfa Gweithwyr Llawrydd.

Roedd yr amserlen arferol ar gyfer dylunio a lansio cronfa bwrpasol i gynorthwyo'r sector wedi'i chywasgu'n sylweddol gan gydnabod y bygythiad uniongyrchol i swyddi a goroesiad sefydliadau ar draws y sector diwylliannol.

Un ystyriaeth wrth ddylunio, datblygu a chyflawni'r Gronfa oedd sicrhau bod cymorth ar gael cyn gynted â phosibl tra'n sicrhau llywodraethu effeithiol a diwydrwydd dyladwy i ddiogelu'r pwrs cyhoeddus. Ni ddylid bychanu lefel y gwaith oedd ei angen i roi Cylch 1 y Gronfa Adferiad Diwylliannol ar waith ychydig fisoedd yn unig ar ôl dechrau'r pandemig ac mae cyflymder yr ymateb wedi'i gydnabod a'i groesawu'n gyffredinol ar draws y sector.

Mae adborth gan sefydliadau a wnaeth ymgeisio yn awgrymu y cafodd y Gronfa ei hyrwyddo'n effeithiol drwy ddull cydgysylltiedig rhwng Llywodraeth Cymru, Cyngor Celfyddydau Cymru, cyrff seilwaith diwylliannol neu grwpiau aelodaeth.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i **https://llyw.cymru/gwerthusiad-o-gronfa-adferiad-diwylliannol-cymru-2020-i-2021-crynodeb-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Yn gyffredinol, roedd gan randdeiliaid yr un farn ag ymgeiswyr, gan gredu bod y Gronfa wedi'i dylunio'n dda ar y cyfan a'i bod yn cynnig eglurder a mynediad hwylus. Rhoddodd ymgeiswyr y gronfa sgoriau cadarnhaol o ran trosglwyddo arian yn brydlon, y gwiriwr cymhwysedd a chyflymder y broses o wneud penderfyniadau.

Mae ymatebion gan sefydliadau sydd wedi derbyn cyllid yn dangos nad oedd ychydig dros draean ohonynt yn ymwybodol o ba grantiau neu gronfeydd eraill oedd ar gael iddynt. I lawer o sefydliadau, y Gronfa Adferiad Diwylliannol oedd yr unig gyllid y gwnaethant gais amdano. Nododd llawer o weithwyr llawrydd hefyd naill ai nad oeddent yn gymwys i dderbyn arian cymorth arall neu nad oeddent yn ymwybodol ohono. Yn hyn o beth, mae'r Gronfa wedi cefnogi sector a allai fel arall fod wedi disgyn rhwng elfennau eraill o ddarpariaeth cyllid cymorth.

Proffil yr ymgeiswyr a derbynwyr y grantiau

Ar draws Cylchoedd 1 a 2 y Gronfa Adferiad Diwylliannol, roedd cyfanswm o 2,013 o geisiadau, a gwnaeth cyfanswm o 1,211 o sefydliadau dderbyn cymorth cyllid grant. Gwnaed ceisiadau gan 1,517 o sefydliadau unigol, a chymeradwywyd 871 ohonynt. Dyfarnwyd tua 90 y cant o geisiadau a gymeradwywyd ar draws y ddau gylch i ficrofusnesau. Dyfarnwyd cyfanswm o £71.6 miliwn ar draws Cylchoedd 1 a 2 y Gronfa Adferiad Diwylliannol o £100.5 miliwn y gwnaed cais amdano gan sefydliadau diwylliannol.

Mae'r data gweinyddol o ddau gylch y Gronfa Gweithwyr Llawrydd yn dangos bod 3,783 o weithwyr llawrydd unigryw wedi'u cefnogi, ac yn dangos mai cyfanswm gwerth y grantiau a ddyfarnwyd oedd £10.39 miliwn. Mae dadansoddiad o'r data yn dangos bod 995 o weithwyr llawrydd wedi cael cymorth ariannol ar draws y ddau gylch ariannu. I'r mwyafrif, roedd eu hymarfer llawrydd yn llawn amser. Ni chafodd tua thraean o weithwyr llawrydd gymorth

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i **https://llyw.cymru/gwerthusiad-o-gronfa-adferiad-diwylliannol-cymru-2020-i-2021-crynodeb-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

incwm drwy'r Cynllun Cymorth Incwm i'r Hunangyflogedig (SEISS).

Ymateb derbynwyr grant i'r pandemig

Yn y rhan fwyaf o achosion, gwnaeth arian grant gyfraniad uniongyrchol i gadw sefydliadau ar eu traed, gan eu galluogi i dalu biliau a chyflogau staff ac i dalu am eu gorbenion. Mae'r cyllid wedi darparu pont i sefydliadau drwy'r pandemig. Gwnaeth ychydig dros hanner y sefydliadau a dderbyniodd arian ei ddefnyddio i addasu eu model busnes neu wasanaethau neu i fuddsoddi mewn offer. Roedd hyn yn debyg yn achos gweithwyr llawrydd, gyda'r mwyafrif yn defnyddio'r arian i dalu biliau a gorbenion ac i dalu eu cyflog a'u hincwm. Buddsoddodd tua thraean mewn offer; gwnaeth un o bob pump addasu eu model busnes, eu gweithgareddau neu eu gwasanaethau; a gwnaeth un o bob chwech fuddsoddi mewn hyfforddiant.

Gwnaeth ychydig dros hanner y sefydliadau creadigol a diwylliannol ddatblygu gweithgareddau neu wasanaethau newydd mewn ymateb i'r pandemig, gan ddarparu tystiolaeth bod y Gronfa wedi galluogi arloesedd yn ogystal â chynorthwyo sefydliadau i ddatblygu meysydd busnes newydd ac arallgyfeirio eu ffrydiau refeniw. Mae gan hyn y potensial i wella gwydnwch y sector i reoli aflonyddwch a chyfyngiadau gweithredol sy'n gysylltiedig â'r pandemig yn y dyfodol. Mae bron pob un ohonynt yn bwriadu cadw rhai neu'r cyfan o'r newidiadau y maent wedi'u rhoi ar waith.

Dywedodd llawer o weithwyr llawrydd fod y cyllid wedi rhoi cyfle iddynt fyfyrio ar eu hymarfer creadigol a nodi cyfleoedd yn y dyfodol. I rai, gwnaeth y Gronfa ganiatáu iddynt brynu offer newydd neu ddiweddaru eu cyfleusterau. I eraill, roedd yn gyfle i rwydweithio â gweithwyr llawrydd eraill, cychwyn ar fentrau newydd, neu ymgymryd â datblygiad proffesiynol a hyfforddiant.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i **https://llyw.cymru/gwerthusiad-o-gronfa-adferiad-diwylliannol-cymru-2020-i-2021-crynodeb-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Effaith y Gronfa Adferiad Diwylliannol ar dderbynwyr y grantiau

I lawer o sefydliadau yn y sector creadigol a diwylliannol, nid yw eu gallu i ddychwelyd i lefelau gweithredu cyn y pandemig yn hysbys o hyd. O'r herwydd, efallai na fydd effaith lawn y Gronfa o ran diogelu sefydliadau a swyddi yn gwbl amlwg am beth amser.

Nododd ychydig dros hanner y sefydliadau a arolygwyd y byddai absenoldeb cymorth ariannol drwy'r Gronfa Adferiad Diwylliannol wedi golygu y byddent yn cau, gydag effaith ehangach ar allu'r sector i gefnogi cymunedau fel rhan o'r cyfnod o adfer o'r pandemig. Byddai ychydig o dan hanner y sefydliadau wedi gorfod defnyddio eu cronfeydd wrth gefn a allai fod wedi rhoi llawer mewn sefyllfa weithredu ansicr, gan olygu y byddent yn agored i fethiant neu gau oherwydd dylanwadau economaidd yn y dyfodol (pandemig neu fel arall). Dywedodd 57 y cant o'r sefydliadau a arolygwyd fod y Gronfa wedi bod yn hanfodol i'w goroesiad.

Ar draws y ddau gylch, roedd y rhai a oedd yn derbyn cyllid yn cyfrif am 4,777 o swyddi cyfwerth ag amser llawn. O ystyried bod tua chwech o bob deg sefydliad wedi nodi bod y gefnogaeth a gafwyd gan y Gronfa Adferiad Diwylliannol yn hanfodol i'w goroesiad, byddai hyn yn cyfateb i ddiogelu 2,700 o swyddi cyfwerth ag amser llawn.

Mae cyfraniad y Gronfa Adferiad Diwylliannol i gefnogi goroesiad llawer o sefydliadau diwylliannol wedi effeithio nid yn unig ar staff cyflogedig ond hefyd ar y nifer sylweddol o weithwyr llawrydd sy'n cael eu contractio i gynorthwyo eu gweithrediad a'u darpariaeth. Wrth gyfrif am sefydliadau sy'n derbyn cyllid ar draws y ddau gylch, amcangyfrifir bod cyfanswm o tua 21,000 o swyddi llawrydd contractiol unigryw wedi'u cynorthwyo.

Mae'r cyllid hefyd wedi galluogi sefydliadau i gadw mewn cyswllt â'u sylfaen o

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i **https://llyw.cymru/gwerthusiad-o-gronfa-adferiad-diwylliannol-cymru-2020-i-2021-crynodeb-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

wirfoddolwyr drwy gadw staff yn weithredol drwy'r pandemig a hefyd drwy ddarparu hyfforddiant neu weithgareddau cymdeithasol. Mae hyn wedi helpu i liniaru'r capasiti a gollwyd o ran gwirfoddolwyr a fyddai, i lawer o sefydliadau, yn sail i'w gallu i ailagor. Amcangyfrifir bod tua 77,000 o rolau gwirfoddolwyr wedi'u diogelu drwy'r Gronfa, yn amrywio o gyfleoedd gwirfoddoli untro mewn digwyddiadau cyfranogi mawr i wirfoddolwyr tymor hwy. Mae hyn yn dangos y cyfraniad uniongyrchol y mae'r Gronfa wedi'i wneud i gynorthwyo ymdrechion i gynyddu lefelau gwirfoddoli ledled Cymru, gan gyflawni amrywiaeth o ganlyniadau cadarnhaol i'r gwirfoddolwyr eu hunain a'r cymunedau y maent yn eu cefnogi.

Dywedodd tua thraean o'r gweithwyr llawrydd a arolygwyd y byddent wedi gadael y sector yn llwyr yn absenoldeb cyllid a dywedodd cyfran debyg y byddent wedi dod o hyd i gyflogaeth arall dros dro y tu allan i'r sector. Yn ymarferol, dim ond un o bob saith a ddaeth o hyd i swydd arall, gan awgrymu bod y cyllid wedi helpu i atal rhag i nifer adael y sector. Gan fod 58 y cant o'r rhai a gafodd gymorth gan y Gronfa Gweithwyr Llawrydd wedi dweud iddo fod yn hanfodol i barhad eu hymarfer, mae hyn yn cyfateb i 2,194 o rolau cyfwerth ag amser llawn yn y sector.

Effeithiau cymdeithasol a diwylliannol ehangach yr arian

Mae'r Gronfa wedi gwneud cyfraniad uniongyrchol i alluogi'r sector diwylliannol i gefnogi unigolion a chymunedau drwy'r pandemig. Mae hyn wedi cynnwys darparu gweithgareddau ar-lein, lledaenu adnoddau creadigol a phecynnau teuluol a chynnal cysylltiadau â gwirfoddolwyr. Er nad y manteision ehangach hyn yw prif ffocws y gwerthusiad hwn, mae adborth gan randdeiliaid wedi amlygu eu pwysigrwydd o ran cefnogi lles meddyliol a mynd i'r afael ag ynysigrwydd ac unigrwydd sy'n effeithio ar lawer o bobl drwy'r pandemig.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i **https://llyw.cymru/gwerthusiad-o-gronfa-adferiad-diwylliannol-cymru-2020-i-2021-crynodeb-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Mae hefyd wedi chwarae rhan bwysig yn y gwaith o ddiogelu asedau diwylliannol, gan gynnwys adeiladau a chasgliadau allweddol. Byddai colli'r asedau hyn wedi lleihau'r seilwaith diwylliannol yn sylweddol ledled Cymru, gan leihau lefel ac ystod y digwyddiadau a'r gweithgareddau diwylliannol sydd â rôl hanfodol i'w chwarae yn adferiad cymdeithas o'r pandemig.

Mae dadansoddi'r sefydliadau sydd wedi derbyn arian drwy ddau gylch y Gronfa Adferiad Diwylliannol yn datgelu'r nifer fawr o ymwelwyr, gwylwyr a chynulleidfaoedd sy'n cael eu croesawu gan dderbynwyr y grantiau. Pe na bai'r sefydliadau hyn wedi goroesi, byddai cyfwerth â 12 miliwn o ymwelwyr, gwylwyr neu aelodau cynulleidfaoedd wedi'u colli, gydag effaith economaidd negyddol gysylltiedig yn sgil llai o wariant.

Y Contract Diwylliannol ac Adduned y Gweithwyr Llawrydd

Anogwyd sefydliadau a oedd yn gwneud cais i'r Gronfa i ymuno â'r Contract Diwylliannol, er mwyn helpu i sicrhau bod y buddsoddiad cyhoeddus gan Lywodraeth Cymru yn cael ei ddefnyddio at ddiben diwylliannol a chymdeithasol. Yn yr un modd, anogwyd gweithwyr llawrydd i ymrwymo i Adduned y Gweithwyr Llawrydd, sydd â'r bwriad o helpu i greu partneriaeth rhwng gweithwyr creadigol llawrydd a chyrff cyhoeddus i gefnogi Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Er bod y gwerthusiad wedi amlygu'r angen am ragor o arweiniad a chymorth, mae tystiolaeth yn dod i'r amlwg bod derbyn arian y Gronfa Adferiad Diwylliannol, ynghyd â manylion y Contract Diwylliannol a'i amcanion ehangach, wedi dylanwadu ar rai sefydliadau i adolygu eu model busnes a gwneud newidiadau i gefnogi twf cynhwysol, lles ac amcanion amgylcheddol. Mae adborth gan weithwyr llawrydd hefyd yn amlygu cefnogaeth eang i amcanion yr Adduned.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.
Ewch i **https://llyw.cymru/gwerthusiad-o-gronfa-adferiad-diwylliannol-cymru-2020-i-2021-crynodeb-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Hyder a rhagolygon

Dywed ychydig o dan hanner y sefydliadau creadigol a diwylliannol eu bod yn hyderus iawn y byddai eu sefydliad yn goroesi yn ystod y 12 mis nesaf a dywedodd yr un gyfran eu bod rywfaint yn hyderus. Mae'r rhan fwyaf o weithwyr llawrydd hefyd yn dweud eu bod yn hyderus y byddai eu hymarfer yn goroesi yn ystod y 12 mis nesaf, er bod pryderon tymor hwy bod y lleoliadau cymunedol traddodiadol y mae llawer o weithwyr llawrydd yn gweithredu ynddynt yn crebachu.

Mae'r rhain yn ganfyddiadau cadarnhaol o ystyried yr ansicrwydd sylweddol a gwendid y sector sydd i'w weld drwy gydol y pandemig. Bydd cael lefel o sicrwydd ynghylch pa gymorth parhaus sydd ar gael yn sbardun allweddol ar gyfer hyder sefydliadol wrth i Gymru ddod allan o'r pandemig.

Anghenion cymorth yn y dyfodol

Cyfeiriodd sefydliadau creadigol a diwylliannol at amrywiaeth o anghenion cymorth yn y dyfodol. Yr ymateb mwyaf cyffredin oedd yr angen am ragor o gymorth ariannol, yn aml i gydnabod y bwlch rhwng codi cyfyngiadau iechyd y cyhoedd a'u gallu i ddychwelyd i lefelau gweithredu cyn y pandemig a ffrydiau/masnachu incwm cysylltiedig.

Mynegodd sefydliadau awydd am ddeialog barhaus rhwng cyrff sector a Llywodraeth Cymru ac, os yw'n bosibl, sicrwydd y bydd cymorth ar gael pe bai unrhyw gyfyngiadau iechyd cyhoeddus yn parhau neu'n dychwelyd.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i **https://llyw.cymru/gwerthusiad-o-gronfa-adferiad-diwylliannol-cymru-2020-i-2021-crynodeb-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Gwersi allweddol

Er bod nifer o wersi wedi'u hawgrymu gan y rhanddeiliaid a gyfwelwyd, yn fwyaf nodedig a chyson, fodd bynnag, roedd y gwersi a ddysgwyd yn ymwneud â'r berthynas a ddatblygwyd rhwng y sector a'r llywodraeth neu gyrff cyhoeddus. Nododd sawl rhanddeiliad fod cyflawni'r gronfa wedi galluogi Llywodraeth Cymru i ddatblygu a dyfnhau ei dealltwriaeth o'r sector diwylliannol. Mae gan hyn y potensial i hwyluso deialog a gwaith partneriaeth cryfach fel rhan o ymdrechion parhaus i gefnogi adferiad y sector o'r pandemig. Roedd y pandemig a'r Gronfa hefyd wedi datblygu gwerthfawrogiad nid yn unig o'r cysylltiadau oddi mewn i'r sector a rhwng y sector a sectorau eraill, ond hefyd rhwng y sector a chymunedau.

Ystyriaethau polisi

Caiff nifer fach o ystyriaethau polisi eu cyflwyno isod mewn ymateb i ganfyddiadau allweddol y gwerthusiad.

Ystyriaeth 1

Dylai Llywodraeth Cymru a chyrff sector allweddol sicrhau bod yr adferiad o COVID-19 yn cael ei ystyried a'i gynnwys wrth ddatblygu'r Strategaeth Ddiwylliant genedlaethol. Dylai hyn ganolbwyntio ar helpu'r sector i symud o gam goroesi i gam ffynnu.

Ystyriaeth 2

Gallai Llywodraeth Cymru a chyrff sector perthnasol ystyried gwneud gwaith i

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.
Ewch i **https://llyw.cymru/gwerthusiad-o-gronfa-adferiad-diwylliannol-cymru-2020-i-2021-crynodeb-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

fapio a phroffilio maint a chyfansoddiad y gymuned o weithwyr llawrydd ledled Cymru fel rhan o waith parhaus i gefnogi ac ymgysylltu â gweithlu sy'n rhan annatod o weithrediad llawer o sefydliadau diwylliannol.

Ystyriaeth 3

Gallai Llywodraeth Cymru a chyrff sector gynhyrchu adnoddau pellach a sefydlu cymuned ymarfer i alluogi i botensial y Contract a'r Adduned gael ei gyflawni.

Ystyriaeth 4

Gallai Llywodraeth Cymru ystyried buddsoddi mewn ymgyrch bwrpasol i hyrwyddo rolau gwirfoddoli yn y sector diwylliannol i helpu i weithredu a rheoli llawer o wasanaethau a gweithgareddau diwylliannol ledled Cymru yn y dyfodol.

Ystyriaeth 5

Gallai Llywodraeth Cymru a chyrff sector perthnasol ystyried opsiynau i gynyddu amlygrwydd gweithwyr llawrydd creadigol a chefnogaeth iddynt, yn ogystal ag archwilio'n fwy sylfaenol i ba raddau y gellir annog sefydliadau diwylliannol i addasu eu modelau gweithredu i gynnig mwy o sicrwydd swyddi i'r sector llawrydd.

Ystyriaeth 6

Bydd parhau â'r ymgyrch dwristiaeth gydgysylltiedig sy'n cael ei harwain drwy Croeso Cymru yn helpu i ailadeiladu nifer yr ymwelwyr domestig a rhyngwladol.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i **https://llyw.cymru/gwerthusiad-o-gronfa-adferiad-diwylliannol-cymru-2020-i-2021-crynodeb-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Ystyriaeth 7

Gallai Llywodraeth Cymru asesu effaith y pandemig ar hyfywedd a chynaliadwyedd lleoliadau cymunedol ledled Cymru yn y dyfodol o ystyried eu rôl annatod fel mannau i sefydliadau diwylliannol a gweithwyr llawrydd ymgysylltu â chynulleidfaoedd, cyfranogwyr a chymunedau a'u cefnogi.

Manylion cyswllt

Awduron: Andy Parkinson, Declan Turner, Paula Gallagher, Sarah Usher, Sam Grunhut, Olivia Heath

Safbwyntiau'r ymchwilwyr sy'n cael eu mynegi yn yr adroddiad yma, ac nid ydynt o reidrwydd yn cynrychioli safbwyntiau Llywodraeth Cymru.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:
E-bost: **diwylliant@llyw.cymru**

Rhif Ymchwil Gymdeithasol: 44/2022
ISBN digidol 978-1-80364-290-1

Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch.
Drllenwch ein **datganiad hygyrchedd** i gael rhagor o wybodaeth.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.
Ewch i **https://llyw.cymru/gwerthusiad-o-gronfa-adferiad-diwylliannol-cymru-2020-i-2021-crynodeb-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.